Gêm Polyn Totem

Mae hon yn gêm wych i gael pawb i gymryd rhan, i wrando ac i gyfrannu at brosiect grŵp.

Deunyddiau:

- Tiwb rholyn toiled yr un
- Pennau ffelt/ Pennau ysgrifennu
- Tâp Gludiog

Sut:

Rhowch diwb i bawb. Gwnewch lun o anifail o'ch dewis sydd, yn eich barn chi, yn eich disgrifio chi'ch hun orau . Ni chaiff dau berson ddewis yr un anifail.

Fel cyngor ysgol, penderfynwch gyda'ch gilydd pwy sy'n mynd ble ar y polyn totem ac yna creu stori am yr anifeiliaid ar y polyn.

Neilltuwch ddigon o amser i adrodd y stori yma.

Pwyntiau trafod:

- Pam wnaethon nhw ddewis yr anifail hwnnw i gynrychioli eu hunain.
- Sut wnaethon nhw ddewis lle dylen nhw fod ar y polyn totem.
- Beth oedden nhw'n ei chael yn anodd wrth weithio gyda'i gilydd? Er enghraifft "A fyddai rhywun wedi hoffi bod mewn gwahanol safle ond wedi ei chael yn anodd trafod telerau...sut bydden nhw'n gwneud hynny'n wahanol?")
- A oedden nhw'n hapus â'r stori/polyn totem yn y diwedd?

Addasiadau:

- Mae'n bosibl gwneud hyn yn yr awyr agored gyda bocsys mwy, a chyda chymaint o ryddid artistig ag sydd ei eisiau.
- Mae'n bosibl gofyn i aelodau dynnu llun o anifail sy'n disgrifio aelod arall o'r cyngor ysgol a'i rinweddau orau.
- Torrwch sgwâr o gardfwrdd yn ddarnau jig-so, yna mae aelodau'n creu jyngl o anifeiliaid sy'n disgrifio'u hunain orau. Mae'r rhain yn cael eu cyfuno i greu darlun mwy.
- Gall pobl ddewis yr un anifail a'r grŵp yn trafod sut i ymdopi â phobl sy'n debyg (h.y. mae gan gyngor ysgol 3 llew a 4 mwnci, felly sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd heb fod yn gystadleuol?)